**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 29 Medi 2015

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Y Cyng. Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad
Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Liz Grieve - Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol

**Awdur yr Adroddiad:** Heidi Gray - Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad

**Teitl:** **Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol – Chwarter 1 – 2015/16**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno diweddariad ar drosglwyddo Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 1 o 2015/16.

1.2 Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchwyd gan System Rheoli Perfformiad Verto, gan ganolbwyntio ar yr eithriadau yn unig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 2015-16 i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.

2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

2.3 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd, yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn defnyddio'r adroddiad hwn i nodi meysydd gwasanaeth penodol (neu feysydd gwaith) a fyddai'n elwa o archwilio manwl i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a pherfformiad cyffredinol y Cyngor, ac i hwyluso cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Chwarter 1, 2015-16 Adroddiad Perfformiad (Atodiad 1) yn edrych ar y Cynllun Corfforaethol 2012-17 a'r Gofrestr Prosiectau Corfforaethol ac mae'n rhoi asesiad seiliedig ar dystiolaeth am y sefyllfa bresennol.

4.2 Mae'r Crynodeb Gweithredol yn cynnwys dadansoddiad o eithriadau allweddol, lle awgrymir y rhoddir sylw.

4.3 Mae'r eithriadau hyn wedi cael eu hamlygu fel a ganlyn: Mae nifer o ddangosyddion a mesurau wedi’u hamlygu fel ‘Coch’ o fewn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' neu lle mae problem gyda'r data sydd angen ei godi.

4.4 Mae'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol 2014-15 wedi'u crynhoi ar tud. 40-41. Mae perfformiad Sir Ddinbych yn y dangosyddion statudol yn ardderchog, gydag 20 yn yr hanner uchaf o awdurdodau yng Nghymru ac 14 yn y chwartel uchaf. Mae gennym hefyd y nifer lleiaf yn yr hanner isaf. Rydym wedi gwella neu gynnal ein sefyllfa mewn 22 dangosydd, ond wedi dirywio mewn 8.

4.5 Mae dangosyddion cenedlaethol sydd wedi dirywio o ran perfformiad 2014-15 wedi eu crynhoi ar tud. 42-43 a darperir naratif i egluro'r dirywiad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’r adroddiad hwn am ein cynnydd wrth ddarparu’r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o’r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn amlinellu faint o arian yn ychwanegol y mae’r cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Ar wahân i'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, cymerir yn ganiataol y gellir cyflawni'r cynllun corfforaethol o fewn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol a’i gyflwyno i’r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu’r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion o’i fewn ag effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r wybodaeth angenrheidiol i gynhyrchu’r adroddiad hwn yn dod o wasanaethau, ac mae'r eithriadau drafft wedi eu trafod a'u dosbarthu i alluogi Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gymryd unrhyw gamau cywirol y maent yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn cynhyrchu’r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau cadarn a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a’r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai’r Cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu rôl y swyddogaeth graffu o ran monitro a rheoli perfformiad.